**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-RE-1212-21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

18 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

**Costau gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru**

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor Cyllid at y datganiad ysgrifenedig sydd wedi ei atodi ynglŷn â'r costau terfynol o weithredu prosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae CThEM wedi cadarnhau bod costau terfynol y prosiect ychydig o dan £8 miliwn, sy'n gyfforddus o fewn yr ystod o gostau a ddarparwyd ar gyfer y prosiect yn wreiddiol.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Costau gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Rhoddodd Deddf Cymru 2014 y pŵer i'r Senedd osod Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC). Ar ôl dod i gytundeb y byddai CTIC yn cael eu gweinyddu gan CThEM ar ran Weinidogion Cymru, cafodd y prosiect i weithredu CTIC ei sefydlu o fis Ebrill 2019.

Drwy'r prosiect hwnnw, mae Llywodraeth Cymru a CThEM wedi cydweithio'n agos i sicrhau y byddai'r systemau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i ddarparu CTIC. Bu'r gwaith hwnnw'n gymhleth ac yn heriol, ond mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y prosiect bellach wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.

Mae CThEM wedi cadarnhau bod costau terfynol y prosiect ychydig o dan £8 miliwn, sy'n gyfforddus o fewn ystod y costau a ddarparwyd ar gyfer y prosiect yn wreiddiol.

Mae'r gwaith o weinyddu CTIC nawr wedi symud ymlaen at gam 'busnes fel arfer' sy'n canolbwyntio ar gynnal a diweddaru systemau, a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â CTIC. Fel y nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, sefydlwyd strwythur llywodraethu ffurfiol i sicrhau cysondeb o ran ansawdd y gwasanaeth i drethdalwyr Cymru, ac i ganiatáu i CThEM a Llywodraeth Cymru gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithredu CTIC.